LTA SERVES

# CYMUNED I MI TENNIS I MI




Dod â thennis i galon eich cymuned

**LTA SERVES yw ein rhaglen flaenllaw chwaraeon ar gyfer datblygu sy'n mynd â thennis i galon cymunedau lleol. Mae'n mynd â thennis a'i fanteision i fannau lle nad yw wedi cael ei chwarae o'r blaen ac at bobl nad ydynt erioed, efallai, wedi codi raced neu wedi meddwl bod tennis at eu dant nhw.**

Mae LTA SERVES yn targedu plant a phobl ifanc 4-18 mlwydd oed, o amrywiaeth o gefndiroedd a chymunedau nad ydynt wedi'u gwasanaethu'n ddigonol. Mae'n cael ei chynnig mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys Canolfannau Cymunedol, Clybiau Ieuenctid, Ystadau Tai a Chyngor, Mosgiau, Gurdwaras, Mandirs a neuaddau Eglwys.

Rydym yn grymuso a chyfarparu cymunedau drwy ymgysylltu â phobl leol a rhoi'r sgiliau iddyn nhw fod yn 'Ysgogwyr Tennis', i'w galluogi nhw i ddarparu sesiynau tennis yn hyderus i'w plant a phobl ifanc.

Mae Themâu Effaith Gymdeithasol 'Hunanhyder', 'Iechyd a Llesiant', a 'Cymunedau Ynghyd' LTA SERVES yn cefnogi datblygiad a gwybodaeth plant a phobl ifanc i fynd i'r afael â rhai o'r problemau mawr y gallant eu hwynebu.

## BETH ALLWN NI EI GYNNIG I CHI?

**Mae ein pecynnau LTA SERVES yn cynnig mynediad tennis AM DDIM i gymunedau lleol.**

### Y PECYN YSGAFN:

**Darparu tennis am o leiaf 12 wythnos y flwyddyn a chael:**

- Hyfforddiant Ysgogwr Tennis Am Ddim
- Pecyn Cyfarpar Am Ddim
- Cymorth Codi Arian a Chynhyrchu Incwm Am Ddim
- Mynediad at gyfleoedd ehangach i chwarae tennis
- Cyfarfodydd Cymorth gan ein tîm
- Cwblhau arolwg SERVES cyflym a syml (bob chwarter)

### Y PECYN SAFONOL:

**Darparu tennis am o leiaf 36 wythnos y flwyddyn a chael holl gynigion y Pecyn Safonol, yn ogystal â:**

- Mynediad at Becyn Cymorth Effaith Gymdeithasol am ddim
- Mynediad at gwrs Arweinwyr Tennis (11-18 oed)
- Cymorth mentora ar gyfer Ysgogwyr Tennis
- Mynediad at Grantiau Cymhwyster Hyfforddiant Tennis



## CYMERWCH RAN:

Am ragor o wybodaeth ac i gynnwys eich cymuned yn hyn ewch i: **www.lta.org.uk/SERVES**

LTA SERVES